

Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Mae'n amlwg bellach y bydd cyfarfodydd cyhoeddus o unrhyw fath yn cael eu gohirio yng Nghymru a hynny am nifer o wythnosau.

Ac fe fydd hynny'n anorfod yn effeithio ar filoedd o'n haelodau ffyddlon led-led y wlad. A bydd pob un ohonom yn gweld colli "cymdeithas gyda'r saint". Pob un ohonom yn torri arfer oes. Pob un ohonom yn ymwybodol o'n breuder a'n hangen am gwmni, am gymdeithas o addolwyr, am bobl sy'n bwrw eu ffydd ar yr Arglwydd Iesu Grist.

Yn ystod yr wythnosau hyn byddwn yn cynnig amlinelliad o wasanaeth byr ar eich cyfer. Os na allwn gyfarfod wyneb yn wyneb â'r eglwys beth am neilltuo hanner awr ar amser eich gwasanaeth arferol i eistedd ac i fyfrio, i ymdawelu a cheisio Duw.

Ac yna ar ôl hanner awr, ffoniwch gyfaill, aelod yn eich capel, rhywun sy'n eistedd yn agos atoch yn y capel am sgwrs dros banded.

Emyn – Caneuon Ffydd 358

Darllen Salm 137:1-4: 1 Pedr 1:3-9

Ger afonydd Babilon yr oeddem yn eistedd ac yn wylo wrth inni gofio am Seion. Ar yr helyg yno bu inni grogi ein telynau, oherwydd yno gofynnodd y rhai a'n caethiwai am gân, a'r rhai a'n hanrheithiai am ddifyrrwch. "Canwch inni," meddent, "rai o ganeuon Seion." Sut y medrwn ganu cân yr ARGLWYDD mewn tir estron?

Myfyrdod

Fe allwn ddychmygu'r Iddewon yn y gaethlgud ym Mabilon. Yn eistedd.

Yn drist- roedd eu cenedl wedi ei orchfygu a'u teuluoedd wedi chwalu.

Ar goll- bellach byddai'n rhaid iddynt ganfod ffordd i fyw mewn gwlad estron.

Yn siomedig- onid oedd y Deml wedi chwalu?

Wedi eu dadrithio- onid oedd presenoldeb Duw ei hun yn ei Deml yn Jerwsalem yn addewid oedd yn ymddangos mor sicr?

Yn awr ym Mabilon roedd ymffrost eu gorchfygwyr am ragoriaeth eu byddinoedd a'u diwylliant, a'i dirmyg o Dduw mor bitw, a drigai mewn dinas mor bitw, mewn teyrnas mor ddibwys o'i gymaru â'r ymerodraeth orchfygol, yn halen yn y briw.

Pallodd yr ymdeimlad o fawredd yr Arglwydd. Dim ond cân draddodiadol o oes a byd arall oedd eu mawl. Difyrwch swynol ond diystyr yn y cyd-destun newydd.

A ninnau?

Wrth i ninnau fethu mynychu oedfa a chapel a chanu a rhannu cymdeithas daw cymysgedd o deimladau croes i'n hysgwyd. Ble mae'ch Duw yn awr? Roeddech yn dlawd gerbron duwiau'n hoes yn barod. Yn awr, difyrrwch diystyr i'n diwylliant yw'ch caneuon ffydd.

Fel y Salmydd gallwn ninnau syrthio i'r felan a dechrau amau nad oes cân i'w chanu mwyach. "Sut y medrwn ganu cân yr ARGLWYDD mewn tir estron?"

Efallai nid tir estron ond tirwedd estron.

Cofiwn heddiw nad yw cân eglwys Iesu Grist yn ddibynnol ar amgylchiadau, lleoliadau, defodau nag arferion "crefyddol".

I ni sail ein haddoliad yw Iesu Grist ei hun. Yr enw mwyaf mawr, erioed a glywyd sôn.

Diolch i Dduw am ei rodd anhraethadwy. (2 Corinth 9) oedd cân yr Eglwys Fore.

Diolch am ei **Rodd yng Nghrist** - cael adnabod Duw. Diolch am ei **rodd trwy Grist**-maddeuant a chymod a bywyd.

Diolch am Addewidion Duw **er mwyn Iesu Grist** – na all nac angau nac einioes ein gwahanu ni o'i diriondeb a'i law.

Efallai bod y tirwedd yn estron ond mae'r gân yn aros am fod gwrthrych ein cân, yng Nghrist yn ddigynnewid ac yn gwbl ddibynadwy.

Gweddï.

Arglwydd mae'n deimlad od i fod fan hyn wrthyf fy hun. A dwi'n gweld colli'r oedfa a'r gymdeithas. Dwi'n diolch i ti am gapel

Am ei arweinwyr dros y blynyddoedd, am yr ysgol Sul ar hyd y blynyddoedd ac am sydd mor ffyddlon i'r oedfaon.

Rwy'n gweddïo dros bob un yn y gynulleidfa.....

dros fy nghyfeillion sy'n gweld bore 'ma yn od i'w ryfeddu;

dros y rhai sy'n unig, yn bryderus am eu hiechyd, yn bryderus am eu hanwyliaid.

Rwy'n gweddïo dros blant yr ysgol yn

Cadw ni'n ddiogel a gwena arnom.

Maddau i fi pan dwi'n camddeall, yn baglu, yn cael fy llethu gan ofnau.

Dwi'n rhoi fy hun yn dy law o'r newydd,

Yn Iesu Grist,

Amen

Emyn 758
